Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Ifor Hael

**Clos Meon**
**Bettws**
**NP20 7DU**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Ifor Hael

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymraeg Ifor Hael |
| Awdurdod lleol | Cyngor Dinas Casnewydd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 194 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 150 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 24 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 21.2% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 10.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 9.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2022 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 23/10/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
[Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir a chadarn ar gyfer yr ysgol sydd yn seiliedig ar ddatblygu lles a medrau iaith Cymraeg y disgyblion. Maent yn rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda phawb yng nghymuned yr ysgol. Mae arweinwyr eraill yn cefnogi'r pennaeth yn effeithiol ac mae'r ymdeimlad o gydweithio fel tîm yn gryf.

Mae gan y pennaeth ddealltwriaeth gadarn o gryfderau a meysydd gwella'r ysgol. Yn ddiweddar, mae hyn wedi arwain at y defnydd o ddulliau effeithiol i godi safonau darllen bron bob disgybl ar draws yr ysgol. Mae'r pennaeth yn cael ei chefnogi gan lywodraethwyr sy'n cyfrannu'n briodol i weledigaeth a gwaith yr ysgol. Er hyn, nid yw'r corff llywodraethol yn ymgymryd â'u rôl yn ddigon effeithiol fel rhan o brosesau hunanwerthuso'r ysgol. O ganlyniad, nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon cadarn o'r datblygiadau  diweddaraf.

Mae athrawon yn cynllunio cwricwlwm sy'n cynnig ystod o brofiadau pwrpasol i ddisgyblion ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad. Mae llais y disgybl yn rhan bwysig o'r broses ar gyfer cynllunio gweithgareddau, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymroi'n frwdfrydig i'w dysgu. Mae awyrgylch gadarnhaol yn y dosbarthiadau ac maent yn gymunedau dysgu gweithgar. At ei gilydd, mae athrawon yn defnyddio ystod addas o dechnegau addysgu effeithiol. Er hyn, mewn lleiafrif o wersi, mae tueddiad i athrawon or-arwain y dysgu. Mae hyn yn cyfyngu gallu disgyblion i wneud dewisiadau am y modd maent yn cyflwyno eu gwaith a'r adnoddau maent eisiau eu defnyddio.

Un o nodweddion cryfaf yr ysgol yw'r ddarpariaeth a gynigir i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae staff yn adnabod y disgyblion hyn yn gyflym ac yn darparu cymorth pwrpasol iddynt er mwyn eu galluogi i wneud cynnydd cadarn yn eu medrau dros amser.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau eu hamser yn yr ysgol sy'n gyfeillgar, gofalgar a chefnogol. Mae eu hymddygiad yn dda ac maent yn ymdrin ag eraill gyda pharch a chwrteisi. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. Un cryfder amlwg yw'r modd mae staff yn hybu'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig ym mywyd a gwaith yr ysgol. O ganlyniad, mae medrau Cymraeg bron bob disgybl a'u hymwybyddiaeth o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru, yn datblygu'n gadarn.

## Argymhellion

A1 Ymestyn cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion wneud penderfyniadau am eu dysgu yn gynyddol annibynnol

A2 Sicrhau bod aelodau'r corff llywodraethol yn cymryd rhan lawn mewn prosesau hunanwerthuso i adnabod yr holl gryfderau a'r meysydd i'w gwella

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau yr ysgol gyda medrau cymdeithasol a chyfathrebu sy’n is na’r hyn sy’n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoed a’u cam datblygu. O’r mannau cychwyn hyn, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion ag ADY a’r rhai sy’n gymwys am prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu eu medrau gwrando yn effeithiol. Yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn, maent yn dilyn cyfarwyddiadau staff ac yn ymateb i gwestiynau yn briodol. Wrth i ddisgyblion symud drwy’r ysgol, mae’r rhan fwyaf yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig ac yn feddylgar wrth wrando ar farn a syniadau ei gilydd.

Mae medrau siarad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n dda yn y ddwy iaith. Mae’r disgyblion ieuengaf yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa’n bwrpasol mewn sefyllfaoedd amrywiol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 yn hyderus wrth ddewis ansoddeiriau i ddisgrifio byd natur yn nhymor yr hydref. Wrth i ddisgyblion symud drwy’r ysgol, mae medrau llafar y rhan fwyaf yn parhau i ddatblygu’n dda. Ym mlynyddoedd uchaf yr ysgol, maent yn cyfathrebu’n rhugl yn y ddwy iaith ac yn siarad yn hyderus mewn ystod o gyd-destunau, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 6 drafod heriau wynebodd mewnfudwyr i Brydain yn y ganrif ddiwethaf.

Mae medrau darllen bron bob disgybl yn datblygu’n effeithiol wrth iddynt symud drwy’r ysgol. Yn y dosbarth derbyn, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adnabod llythrennau gan eu cysylltu â’u seiniau’n gynyddol gywir. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn darllen testunau syml yn eglur gan ddangos mynegiant cynyddol. Maent yn talu sylw gofalus i’r ystod o atalnodi perthnasol. Ar frig yr ysgol, mae bron bob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau darllen Cymraeg a Saesneg. Maent yn darllen yn ddeallus gan amrywio goslef eu llais yn effeithiol. Maent yn defnyddio dulliau pwrpasol i adeiladu ystyr geiriau anghyfarwydd, er enghraifft wrth ddarllen testun am ddogni bwyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau ysgrifennu. Mae’r disgyblion ieuengaf yn ymarfer eu medrau ysgrifennu cynnar wrth ddefnyddio gwahanol offer yn yr ardaloedd dysgu yn bwrpasol. Maent yn dechrau ffurfio llythrennau yn gywir ac yn cyfateb seiniau a llythrennau yn llwyddiannus. Wrth iddynt symud drwy’r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu yn fedrus yn y ddwy iaith. Erbyn Blwyddyn 4, maent yn dangos gafael gadarn ar batrymau sillafu cyfarwydd ac yn dechrau cysylltu brawddegau er mwyn ysgrifennu darnau estynedig. Erbyn Blwyddyn 6, mae’r rhan

fwyaf o ddisgyblion yn addasu eu harddull a strwythur i wahanol destunau yn effeithiol, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr ffurfiol am effaith datgoedwigo.

Mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n gadarn yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Maent yn adeiladu’n gyson ar ddysgu blaenorol ac yn meithrin medrau a chysyniadau newydd yn rheolaidd. Mae medrau cyfrifo llawer o’r disgyblion ieuengaf yn datblygu’n dda; er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth meithrin yn cyfri gwahanol wrthrychau hyd at 5. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn adnabod eilrifau ac odrifau ac yn trefnu rhifau hyd at 100 yn gywir. Wrth symud drwy’r ysgol, mae medrau mathemateg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn parhau i ddatblygu’n gadarn. Erbyn Blwyddyn 3, maent yn casglu data i ddangos faint o law ddisgynnodd ym Mhrydain mewn blwyddyn, ac yn defnyddio’r wybodaeth yn effeithiol i greu tablau a siartiau o’r canlyniadau. Ym Mlwyddyn 6, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o’r pedair rheol ac yn eu defnyddio’n effeithiol i ateb gwahanol broblemau mathemategol, er enghraifft wrth gyfrifo faint o galorïau mae chwaraewr rygbi yn ei fwyta i frecwast.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae’r disgyblion ieuengaf yn hyderus wrth ddefnyddio llechen gyfrifiadurol i gyfoethogi eu dysgu, er enghraifft wrth ddefnyddio cod i gyrchu cân Gymraeg i atgyfnerthu patrymau iaith cyfarwydd. Wrth iddynt symud drwy’r ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod o feddalwedd yn llwyddiannus wrth ymchwilio i ddarganfod gwybodaeth i gefnogi eu dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 3 yn ymchwilio i nodweddion dinosoriaid cyn creu eu hanifeiliaid dychmygol eu hunain yn ddigidol. Fel rhan o’r thema ar ‘Deithio’, mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 5 yn hyderus wrth ddefnyddio meddalwedd i raglennu cyfarwyddiadau i reoli roced.

Mae medrau creadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n gadarn ar draws yr ysgol. Ym mlynyddoedd isaf yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion ieuengaf yn mwynhau defnyddio ystod o offer a defnyddiau i greu lluniau a modelau. Er enghraifft, fel rhan o’u thema, mae disgyblion Blwyddyn 1 yn mwynhau gwehyddu i greu patrymau Affricanaidd. Ym mlynyddoedd uchaf yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio’n ddychmygus wrth arbrofi ag amrywiaeth eang o ddeunyddiau a thechnegau. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn datblygu eu medrau creadigol yn effeithiol wrth ddefnyddio paent a phasteli er mwyn efelychu gwaith arlunwyr enwog.

Mae bron bob disgybl yn datblygu eu medrau corfforol yn dda. Maent yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sy’n hybu eu hiechyd a’u lles yn effeithiol. Er enghraifft, mae’r disgyblion ieuengaf yn rhedeg ras er mwyn casglu concyrs ac yn ymarfer eu medrau cyd-bwyso ar y beiciau. Mae’r disgyblion hynaf yn cymryd rhan mewn gemau tîm fel pêl-droed, rygbi a phêl-rwyd ac yn datblygu medrau cadarn mewn gwersi addysg gorfforol amrywiol.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Un o nodweddion cryfaf yr ysgol yw’r natur gynhwysol, yr ethos gofalgar a’r awyrgylch gartrefol sydd ynddi. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn mwynhau bod yn aelod o gymuned yr ysgol ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan y staff. Ar draws yr ysgol, mae gan ddisgyblion berthynas gadarnhaol ag oedolion. Mae ymddygiad y rhan fwyaf yn nodwedd gref ac maent yn gwrtais ac yn barchus tuag at

ei gilydd ac eraill. Mae bron pob disgybl yn dangos gofal ac ystyriaeth gwrtais at eraill ac yn gwerthfawrogi cyfraniadau eu cyfoedion.

Mae bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi petai rhywbeth yn eu poeni. Maent yn gwerthfawrogi bod oedolion yn eu trin yn deg ac yn eu parchu. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu perthynas waith glòs rhwng staff a disgyblion. Er enghraifft, mae aelodau'r 'Grŵp Enfys' yn gwerthfawrogi cyfleoedd rheolaidd i drafod materion sensitif gydag aelodau o staff, fel rhywioldeb, hiliaeth a chydraddoldeb.

Mae dealltwriaeth bron bob disgybl o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion moesol ac egwyddorol yn datblygu'n gadarn. Maent yn datblygu gallu a hyder i drafod eu teimladau ac i ddangos empathi tuag at eraill sy'n llai ffodus na nhw. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn trafod y gwahaniaeth rhwng eu hawliau nhw a hawliau plant yn Syria a Libanus. Trwy hyn, maent yn datblygu eu dealltwriaeth o degwch a chydraddoldeb yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu ac yn dangos diddordeb yn eu gwaith. Maent yn canolbwyntio'n ddiwyd ar eu gweithgareddau dysgu am gyfnodau estynedig, gan ddangos dyfalbarhad a gwydnwch wrth gyflawni eu gwaith. Maent yn cydweithio'n gytûn wrth gwblhau eu tasgau o fewn grwpiau bychain ac fel dosbarth cyfan. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ym mlynyddoedd uchaf yr ysgol ddealltwriaeth gadarn o'r angen i ddarllen eu gwaith yn ofalus er mwyn cywiro camgymeriadau. Maent yn deall bod hyn yn rhan bwysig o'r broses ddysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a hyderus sy'n barod i ddysgu.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd cadw'n iach a heini. Maent yn mwynhau defnyddio'r amrywiaeth o offer sydd ar gael iddynt yn ystod amseroedd egwyl, gan gynnwys yr offer dringo a rhwystrau. Maent yn frwdfrydig a gweithgar yn ystod gwersi addysg gorfforol ac yn mwynhau cymryd rhan yn y clybiau chwaraeon, er enghraifft y clwb pêl-droed a phêl-rwyd. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta diet cytbwys gan gynnwys bwyta amrywiaeth o ffrwythau a llysiau, ac yfed dŵr yn rheolaidd. Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o ddiogelwch ar-lein.

Mae bron bob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag ADY, yn mwynhau ymgymryd â rolau arwain a chyfrifoldebau drwy fod yn aelodau o'r grwpiau amrywiol 'Mae gen i Lais'. Maent yn ymgymryd â'u rolau yn frwdfrydig ac yn ymfalchïo yn eu llwyddiant. Er enghraifft, mae aelodau'r cyngor eco yn angerddol am gasglu sbwriel yn yr ardal leol ac wrth ailgylchu gwastraff amrywiol yn yr ysgol, sy'n cynnwys plastig a batris.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo bod oedolion yn gwrando'n dda ar eu barn ac yn ei hystyried yn dda mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i'r cyfleoedd i ddylanwadu ar yr hyn maent eisiau ei ddysgu o fewn eu themâu tymhorol. Ar gychwyn bob tymor, mae disgyblion yn rhannu eu syniadau gan ychwanegu cwestiynau ynglŷn â'r hyn yr hoffent ei ddarganfod ar ddechrau thema newydd.

Yn ddiweddar, mae disgyblion wedi mynegi eu barn am y ddarpariaeth drwy lenwi holiaduron perthnasol. O ganlyniad, mae arweinwyr yn cydnabod yr angen i

ddechrau pob diwrnod gyda 'Cyfnod Croeso'. O fewn y sesiynau hyn, mae disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i fynegi eu teimladau cyn cychwyn ar eu tasgau dyddiol.

Mae bron bob disgybl yn gwerthfawrogi cyfleoedd i ymweld â mannau sy'n hybu eu dealltwriaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn mwynhau ymweld â Sain Ffagan fel rhan o'u gwaith ar dai'r Tuduriaid. Fel rhan o drefniadau pontio gyda'r ysgol uwchradd, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn mwynhau'r cyfle i fynd ar daith breswyl i Gilwern a chyfarfod â disgyblion eraill y dalgylch. O ganlyniad, mae hunanhyder a gallu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i gyfathrebu a chydweithio ag eraill yn datblygu'n dda.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer cyflwyno Cwricwlwm i Gymru yn datblygu'n effeithiol. Mae athrawon yn cydweithio a chynllunio'n bwrpasol i ddarparu profiadau diddorol ac ysgogol sy'n cwmpasu'r meysydd dysgu a phrofiad yn briodol. Mae pob aelod o staff yn fodelau iaith effeithiol ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau llafar Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion. Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi cyflwyno cynllun pwrpasol ar gyfer gwella darllen disgyblion. Mae hyn yn effeithiol wrth sicrhau bod medrau darllen bron bob disgybl yn datblygu'n gadarn dros amser. Mae athrawon yn darparu ystod o gyfleoedd priodol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd, digidol a rhifedd ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig mewn cyd-destunau gwahanol. Trwy'r cyfleoedd hyn, mae disgyblion Blwyddyn 2, er enghraifft, yn ysgrifennu adroddiad pwrpasol i esbonio pam y dylai pobl ofalu am y byd tra bod disgyblion Blwyddyn 4 yn ysgrifennu disgrifiad manwl o swyddogaeth organau'r corff.

Lle mae'r addysgu ar ei orau, mae cyflwyniadau llawer o'r gwersi yn fyrlymus ac ysgogol sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau holi treiddgar sy'n adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion a datblygu eu medrau meddwl yn effeithiol. Maent yn rhoi adborth llafar bwriadus i ddisgyblion mewn gwersi sy'n eu helpu i wybod beth yw'r camau nesaf yn eu dysgu. Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi adnabod yr angen i wella adborth ysgrifenedig athrawon er mwyn cefnogi disgyblion i wybod beth yw'r camau nesaf wrth wella eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu gwaith sy'n herio disgyblion yn briodol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn darparu cyfleodd pwrpasol i ddisgyblion wneud dewisiadau am y modd maent yn cyflwyno eu gwaith a'r adnoddau mae angen iddynt eu defnyddio. Mae hyn yn arafu gallu disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol.

Mae'r disgyblion ieuengaf yn elwa o brofiadau bwriadus yn ardaloedd allanol yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth derbyn yn manteisio ar gyfleoedd pwrpasol i ddatblygu eu medrau llafar a rhif wrth bysgota am y corynod yn y twba dŵr. Er hyn, ar adegau, mae athrawon yn gorgyfarwyddo'r disgyblion yn yr ardaloedd dysgu. O ganlyniad, mae hyn yn cyfyngu gallu disgyblion i ddatblygu eu medrau creadigol yn gynyddol annibynnol.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio ymweliadau addysgol ysgogol i gyfoethogi ac atgyfnerthu'r dysgu. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn ymweld â fferm leol ac yn mynd ar deithiau cerdded i'r gymuned sy'n datblygu eu dealltwriaeth o'u cynefin yn effeithiol. Mae'r disgyblion hynaf yn dwysàu eu dealltwriaeth o Gymru wrth

ymweld â’r Senedd yng Nghaerdydd yn llwyddiannus. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd cyffrous i ddisgyblion weithio gydag artistiaid lleol a chwmnïau drama, er enghraifft wrth i’r disgyblion hynaf greu dawns wrth berfformio sioe ‘Betty Campbell’.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae’r ysgol yn gymuned gynhwysol a gofalgar sy’n hyrwyddo gwerthoedd cadarn, sef Parch, Gofal a Cymreictod. Mae perthynas waith agos yn bodoli rhwng y staff a’r disgyblion, ac ymhlith y disgyblion eu hunain. Mae hyn yn arwain at greu cymuned ofalgar sydd ag ethos cyfeillgar a chynnes. Mae athrawon a’r cynorthwywyr yn adnabod disgyblion yn dda ac maent yn ymateb yn bwrpasol i'w hanghenion emosiynol a chymdeithasol. Mae agweddau cadarnhaol staff yn cefnogi disgyblion i ymgartrefu'n gyflym a chyfrannu’n dda i fywyd yr ysgol. Mae hyn yn atgyfnerthu bodlonrwydd a lles disgyblion yn dda, ac yn eu hannog i feithrin agweddau gwydn at eu dysgu.

Mae’r staff yn darparu’n fwriadus ar gyfer diwallu anghenion lles bron bob disgybl. Mae’r trefniant boreol lle mae disgyblion yn rhannu eu teimladau â’r athrawon yn gweithio’n dda ar gyfer adnabod disgyblion penodol. Drwy’r defnydd o’r ‘Hafan’ a’r corneli ymdawelu yn y dosbarthiadau, mae staff yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio’n dawel cyn dychwelyd i’w dysgu yn ddiweddarach.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag ADY yn gadarn. Mae’r cydlynydd ADY (CADY) a’r cynorthwywyr yn hynod frwdfrydig am eu cyfrifoldebau wrth gefnogi disgyblion. Dan arweiniad medrus y CADY, mae staff yn casglu gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd disgyblion ac yn dadansoddi’r wybodaeth yn effeithiol. O ganlyniad, maent yn adnabod disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn gyflym ac yn darparu ystod o raglenni cefnogi sy’n diwallu eu hanghenion penodol yn llwyddiannus. Mae’r staff yn sicrhau bod gan bob disgybl sydd ag ADY dargedau penodol sy’n cael eu hadolygu a’u gwerthuso’n gyson. Maent yn cynnwys y rhieni’n bwrpasol yn nhrafodaethau cynnydd eu plant.

Mae’r staff yn gwneud defnydd effeithiol o ardaloedd allanol yr ysgol i ddatblygu medrau meddwl y disgyblion a’u gallu i ddatrys problemau. Er enghraifft, gwneir defnydd pwrpasol o’r goedwig i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o gynaliadwyedd a byd natur. Mae disgyblion y dosbarth derbyn yn mwynhau casglu dail a chnau fel rhan o’u gwaith cyfrif. Mae’r disgyblion hynaf yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr awyr agored, er enghraifft wrth gyfrifo hyd a pherimedr gwahanol wrthrychau ar iard yr ysgol.

Un o gryfderau’r ysgol yw’r modd mae staff yn hyrwyddo a datblygu dealltwriaeth y disgyblion o’u hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant Cymru. Mae disgyblion yn manteisio ar gyfleoedd buddiol i ddathlu eu Cymreictod ac i deimlo eu bod yn perthyn i’r gymuned leol. Er enghraifft, mae’r disgyblion ieuengaf yn canu mewn cartref preswyl lleol tra bod y disgyblion hynaf yn cymryd rhan mewn gwasanaeth arbennig Sul y Cofio gydag ysgolion eraill y dalgylch.

Mae cyflwyniadau yn y gwasanaethau boreol yn effeithiol wrth ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o ba mor amrywiol yw cymdeithas heddiw, er enghraifft wrth ystyried bod teuluoedd yn medru bod yn wahanol. Trwy sesiynau addoli ar y cyd,

mae staff yn meithrin gwerthoedd cytûn, fel gonestrwydd, tegwch a chyfiawnder, yn gyson, sydd yn ei dro yn helpu disgyblion i ddeall anghenion a hawliau pobl eraill.

Mae’r ysgol yn cynnig cyfleoedd sy’n annog disgyblion i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau chwaraeon a hamdden, er enghraifft mewn twrnameintiau chwaraeon fel rygbi, pêl-droed a phêl-rwyd. Mae’r rhain yn cyfrannu’n gadarn at ddatblygu’r disgyblion i fod yn unigolion iach a hyderus. Mae trefniadau’r ysgol i baratoi’r disgyblion ar gyfer byd gwaith yn effeithiol; er enghraifft, mae staff yn trefnu wythnos o weithgareddau a llwydda hyn i ysgogi disgyblion i godi eu dyheadau i’r dyfodol yn dda.

Mae gan staff ddealltwriaeth gadarn o brosesau diogelu ac mae arweinwyr yn ymateb yn briodol i unrhyw achosion unigol, gan gydweithio ag asiantaethau eraill yn effeithiol. Mae prosesau’r ysgol ar gyfer sicrhau prydlondeb a phresenoldeb cyson disgyblion yn gadarn.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy’n seiliedig ar ddatblygu lles disgyblion o fewn amgylchedd cynhwysol a chyfeillgar. Mae’r pennaeth yn cael ei chefnogi’n effeithiol gan arweinwyr eraill sy’n rhannu’r weledigaeth hon gyda disgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni yn llwyddiannus.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr ymdeimlad o waith tîm yn gryf ar draws yr ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth da o’u rolau â’u cyfrifoldebau. Mae staff yn gyfrifol am agweddau penodol o waith yr ysgol ac yn cyfrannu’n bwrpasol at sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol a’r rhai o gefndiroedd difreintiedig, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau dros amser.

Mae gan y pennaeth ac arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o brif gryfderau a’r meysydd i’w gwella. Maent yn defnyddio ystod o weithgareddau pwrpasol ar gyfer gwerthuso’r dysgu a’r addysgu sy’n cynnwys monitro cynlluniau, craffu ar waith disgyblion ac arsylwi gwersi. Mae hyn wedi bod yn effeithiol wrth adnabod yr angen i wella agweddau o ddysgu disgyblion, sy’n cynnwys eu medrau darllen yn dilyn cyfnod y pandemig. O ganlyniad, mae arweinwyr wedi cyflwyno dulliau datblygu medrau darllen ar draws yr ysgol sydd wedi cael effaith hynod gadarnhaol ar safonau darllen bron bob disgybl.

Mae’r corff llywodraethol yn derbyn adroddiadau priodol yn dymhorol gan y pennaeth sy’n canolbwyntio ar y cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau gwella. O fewn eu cyfarfodydd tymhorol, maent yn herio rhai elfennau o’r adroddiadau gan holi cwestiynau pwrpasol sy’n gysylltiedig â safonau a’r ddarpariaeth i gefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau. Mae arweinwyr yn defnyddio’r grant datblygu disgyblion yn effeithiol, er enghraifft er mwyn cefnogi disgyblion sy’n cael eu heffeithio gan dlodi i’w cefnogi i gael mynediad llawn i brofiadau dysgu. Mae aelodau’r corff yn ymweld â’r ysgol yn gyson; er enghraifft, yn ddiweddar, maent wedi ymweld â’r dosbarthiadau gan dalu sylw i’r ddarpariaeth ar gyfer gwella medrau disgyblion. Er hyn, nid yw’r corff yn cymryd rhan ddigon effeithiol ym mhrosesau hunanwerthuso’r ysgol. O ganlyniad, nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon cynhwysfawr o’r holl gryfderau a’r meysydd i’w gwella.

Mae'r pennaeth wedi creu diwylliant ac ethos cadarnhaol i hybu a chefnogi dysgu proffesiynol yr holl staff. Mae bob un o'r athrawon yn cael cyfleoedd cyson i fynychu cyrsiau ac hyfforddiant sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'u hanghenion unigol a blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae'r holl staff yn rhannu syniadau ac arferion gorau gyda'i gilydd yn bwrpasol. Yn ddiweddar, mae staff wedi rhannu arferion addysgu gorau ar ôl treialu dulliau i wella medrau meddwl disgyblion. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ar gyfer perfformiad y staff a hi ei hun. Mae gan staff dargedau gwella priodol sy'n cysylltu'n agos â'r meysydd i'w gwella a'u blaenoriaethau datblygiad proffesiynol.

Mae arweinwyr wedi datblygu diwylliant cadarn o ddiogelu ar draws yr ysgol. Mae'r corff llywodraethol yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach; er enghraifft, mae disgyblion yn cael eu hannog i fwyta ffrwyth ac yfed dŵr yn ystod y dydd.

Mae arweinwyr yn meithrin perthnasoedd cynhyrchiol â theuluoedd a chymuned ehangach yr ysgol. Yn ddiweddar, cynhaliodd y disgyblion 'Criw Cymraeg' fore coffi i hybu siarad Cymraeg ymysg rhieni ac aelodau'r gymuned. Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o rwydweithiau i gyfathrebu'n gyson â rhieni. O ganlyniad, mae'r rhieni'n teimlo'n gyfforddus i godi unrhyw fater a all effeithio ar ddysgu a lles eu plentyn.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/12/2023